# Cynllunio a chynnal digwyddiadau chwaraeon a gweithgaredd corfforol yn y gymuned

## Trosolwg

Mae'r safon yma'n disgrifio'r medrusrwydd sydd ei angen ar ymarferwyr sy'n gweithio o fewn y gymuned er mwyn cynllunio a chynnal digwyddiadau chwaraeon a gweithgaredd corfforol yn y gymuned. Bydd y digwyddiadau hyn yn annog ymwneud gan y gymuned a chodi lefelau gweithgaredd. Byddwch yn cynllunio'r digwyddiad ar sail mewnwelediad a chael ysbrydoliaeth o ddigwyddiadau chwaraeon Cenedlaethol a phwysig. Tra'n sicrhau bod y digwyddiad yn gynhwysol a hygyrch byddwch yn cynnal gweithgareddau ac arloesol.

Mae'r safon yma ar gyfer pob ymarferydd sy'n gweithio o fewn y gymuned.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1.
nodi'r anghenion a'r cyfleoedd ar gyfer digwyddiadau chwaraeon a gweithgaredd corfforol yn y gymuned
2.
casglu gwybodaeth er mwyn nodi anghenion a chyfleoedd
3.
defnyddio mewnwelediad i gefnogi datblygiad y digwyddiad
4.
dadansoddi'r wybodaeth er mwyn penderfynu ar y digwyddiad
5.
gweithio ar y cyd gyda chymunedau, cydweithwyr a gwirfoddolwyr er mwyn cynllunio a threfnu'r digwyddiad
6.
nodi rhwystrau posibl i bobl gymryd rhan a rhoi strategaethau priodol ar waith er mwyn lleihau'r perygl o bobl yn rhoi'r gorau iddi
7.
dod o hyd i ffynonellau cyllid perthnasol er mwyn cefnogi'r rhaglen
8.
nodi adnoddau, cyfarpar a lleoliadau sydd eu hangen a rhoi ystyriaeth i asedau lleol sydd ar gael
9.
sicrhau bod y digwyddiad yn gynhwysol ac yn hygyrch
10.
cynhyrchu cynllun a chytuno arno gyda chymunedau, cydweithwyr a gwirfoddolwyr
11.
ymgymryd â gweithgaredd hyrwyddo priodol er mwyn annog pobl i gymryd rhan
12.
gwneud yn siwr bod ffiniau diogelwch effeithiol, addasadwy a hyblyg wedi cael eu sefydlu yn dilyn gofynion iechyd a diogelwch
13.
cyfrannu tuag at gynnal digwyddiadau chwaraeon a gweithgaredd corfforol arloesol a deniadol

14. amlinellu system glir o fonitro a gwerthuso er mwyn gwerthuso'r prosiect/rhaglenni
15. gwerthuso llwyddiant y digwyddiad gan ddefnyddio technegau dadansoddi priodol

1. gweithredu o fewn rhychwant eich ymarfer ac yn unol â'r canllawiau
2. dilyn deddfwriaeth gyfredol, canllawiau, polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau sy'n berthnasol i ymarfer eich gwaith ac y mae'n rhaid i chi gadw atynt

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. amrywiaeth o anghenion a chyfleoedd ar gyfer digwyddiadau chwaraeon gweithgaredd corfforol yn y gymuned
2. sut a ble i gasglu gwybodaeth er mwyn nodi'r anghenion a'r cyfleoedd
3. sut i ddadansoddi gwybodaeth a gasglwyd er mwyn penderfynu ar y digwyddiad
4. pa fanteision all y digwyddiadau hyn eu cael i'r gymuned
5. pwysigrwydd mewnwelediad y ystod y cyfnod o ddatblygu
6. digwyddiadau cenedlaethol a phwysig a sut gall y rhain ysbrydoli cymunedau i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgaredd corfforol
7. sut i drefnu a chydlynu cynlluniau ar gyfer digwyddiadau er mwyn cwrdd ag amcanion
8. sut i weithio mewn cydweithrediad gyda chymunedau, cydweithwyr a gwirfoddolwyr
9. amrywiaeth eang o offer, strategaethau a thechnegau addas sy'n briodol i'r cymunedau, cydweithwyr a gwirfoddolwyr
10. rhwystrau a chymhellyddion i amryw grwpiau cymunedol
11. ffynonellau cyllido ar gyfer cefnogi digwyddiadau cymunedol
12. sut i nodi gofynion ar gyfer cyfarpar, adnoddau, a lleoliad
13. sut i wneud defnydd o asedau lleol sydd ar gael
14. sut i wneud y digwyddiad yn gynhwysol a hygyrch
15. y mathau o broblemau all ddigwydd a sut i ddelio â'r rhain mewn modd effeithiol
16. y farchnad darged ar gyfer pob gweithgaredd hyrwyddo
17. yr amryw ffurfiau o weithgaredd hyrwyddo sy'n briodol ar gyfer y gynulleidfa
18. pwysigrwydd ffiniau diogelwch effeithiol, addasadwy a hyblyg yn dilyn gofynion iechyd a diogelwch
19. dulliau o wahaniaethau er mwyn ymateb i wahanol hoffterau dysgu a chyfathrebu'r rhai sy'n cymryd rhan/cleientiaid
20. sut i gyflwyno gweithgareddau deniadol ac arloesol
21. pam ei fod yn bwysig gwerthuso llwyddiant digwyddiad er mwyn hysbysu ymarfer yn y dyfodol
22. systemau monitro a gwerthuso clir

23. dulliau o ddadansoddi
24. rhychwant a chyfyngiadau eich medrusrwydd, cyfrifoldebau ac atebolrwydd chi eich hun fel ag y mae'n berthnasol i'ch swydd chi
25. deddfwriaeth gyfredol, canllawiau, polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau sy'n berthnasol i ymarfer eich gwaith ac y mae'n rhaid i chi gadw atynt

SKAWWC5

Cynllunio a chynnal digwyddiadau chwaraeon a gweithgaredd corfforol yn y gymuned

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | SkillsActive |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2025 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | SkillsActive |
| **RCU gwreiddiol** | n/a |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ysgogydd cymunedol, Swyddog gweithgaredd corfforol a iechyd, Hyfforddwr / Cyfarwyddwr |
| **Cyfres/Set** | Gweithio o fewn y gymuned |
| **Geiriau Allweddol** | cymuned; gweithgaaredd corfforol; chwaraeon; cyflwyno; hwyluso; rhaglenni; digwyddiadau |